**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 29 Mai 2002 |
| **Amser:** | 2.00 hyd 4.45 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU**

**CYNLLUN GOFODOL CYMRU - ADRODDIAD AR GYNNYDD A'R YMATEB I'R YMGYNGHORIAD**

**Pwrpas**

1. Sôn wrth y Pwyllgor am hynt y gwaith o baratoi Cynllun Gofodol Cymru ac adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad diweddar ar *Cynllun Gofodol Cymru - Llwybr i Ddatblygu Cynaliadwy*.

**Crynodeb**

2. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r gwaith a wnaed hyd yma o ran paratoi Cynllun Gofodol Cymru ac yn amlinellu'r prif faterion sy'n deillio o'r ymarfer ymgynghori diweddar ar gynnwys y Cynllun a sut i'w gyflawni.

**Amseru**

3. Ymgynghorwyd ar gynnwys y Cynllun a sut i'w gyflawni rhwng Medi a Rhagfyr 2002. Caiff Cynllun Gofodol Cymru ei baratoi erbyn Mawrth 2003.

**Cefndir**

4. Darparodd Gwellcymru'r sail ar gyfer paratoi Cynllun Gofodol Cymru (WSP). Roedd yn cynnwys ymrwymiad i baratoi fframwaith datblygu gofodol newydd, sy'n gysylltiedig â pholisïau'r Cynulliad, ac a fydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gyda help y rheini yr effeithir arnynt. Roedd hefyd yn cynnwys ymrwymiad i roi'r fframwaith (Cynllun) yn ei le erbyn Mawrth 2003. Mae'r ymrwymiad i baratoi Cynllun Gofodol Cymru wedi'i ailddatgan gan Cynllun i Gymru.

Ymgynghori ar ei gynnwys a sut i'w gyflawni

5. Rhwng Medi a Rhagfyr 2001, ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar y ddogfen *Cynllun Gofodol Cymru - Llwybr i Ddatblygu Cynaliadwy*. Roedd y ddogfen ymgynghori yn amlinellu cefndir Cynllun Gofodol Cymru, gan gynnwys ei ddibenion, materion posibl i'w trafod a sut i'w gyflawni. Erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori, roedd 75 ymateb wedi dod i law, gan awdurdodau lleol a sefydliadau busnes ac amgylcheddol yn bennaf. **Mae'r ddogfen yn yr Atodiad yn dadansoddi'r sylwadau a dderbyniwyd**. Bydd y ddogfen yn cael ei chyhoeddi fel cofnod o'r ymarfer ymgynghori, a thestun llawn yr ymatebion yn cael eu gosod yn llyfrgell y Cynulliad.

6. Er bod yr ymarfer ymgynghori wedi codi sawl mater y bydd angen eu hystyried yn ystod y camau sy'n weddill o baratoi'r Cynllun, roedd cefnogaeth aruthrol i'r gwaith paratoi hwnnw. Mae nifer o faterion yn dod i'r amlwg dro ar ôl tro - yn eu plith, statws y Cynllun, rôl gwaith ar y cyd rhwng rhanbarthau a'r amser sydd ar gael i baratoi'r Cynllun.

*Statws*

7. Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r sylwadau o blaid ac yn erbyn rhoi statws statudol i'r Cynllun. O ystyried popeth, rwy'n cytuno gyda mwyafrif yr ymatebwyr y dylai fersiwn gyntaf y Cynllun gael statws polisi cynllunio cenedlaethol, fel Polisi Cynllunio Cymru a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru. Pe bai cyfle am ddeddfwriaeth sylfaenol yn codi, byddwn am gyflwyno dyletswydd statudol ar i'r Cynulliad baratoi Cynllun Gofodol, tebyg i'r gofyniad i greu Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Rwy'n bwriadu parhau i adolygu'r posibilrwydd o gynnwys cynlluniau'r dyfodol fel rhan o'r system cynllun datblygu statudol, a byddaf yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymatebion a gafwyd i Cynllunio: Cyflawni dros Gymru yn hyn o beth.

*Gweithio rhanbarthol ar y cyd*

8. O ran gweithio rhanbarthol ar y cyd, nid yw'n fwriad gennyf bod Cynllun Gofodol Cymru yn disodli'r gwaith gwerthfawr a wneir gan awdurdodau lleol ac eraill yn llunio datganiadau rhanbarthol. Yn hytrach, bydd y Cynllun yn canolbwyntio ar y materion strategol hynny sydd o bwys cenedlaethol. Bydd y Cynllun yn adeiladu ar waith rhanbarthol ar y cyd sy'n mynd rhagddo eisoes, lle y bo'n briodol, ac yn nodi'r materion a'r ardaloedd daearyddol hynny lle y mae angen rhagor o waith. Gallai hefyd gynnig ffordd i Lywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi a chydnabod gwaith rhanbarthol ar y cyd yn ffurfiol.

*Amserlen*

9. Mae'r amserlen i gael Cynllun Gofodol cyntaf Cymru yn barod erbyn Mawrth 2003 yn uchelgeisiol, ond yn bosibl. Ni fydd y Cynllun arloesol cyntaf yn ceisio ateb pob cwestiwn: rhan o'i rôl fydd nodi'r prif faterion gofodol, gan gydnabod lle y bo gwaith ar y gweill i ymdrin â hwy,

ac os nad oes, ysgogi rhagor o waith.

Gweithio mewn Partneriaeth

10. Mae Cynllun Gofodol Cymru yn cael ei baratoi mewn ffordd gynhwysol ar y cyd â llywodraeth leol, busnesau a'r sector gwirfoddol. Mae Bwrdd Rheoli sy'n cynrychioli'r sectorau hyn, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i asiantaethau yn arwain y gwaith o baratoi'r Cynllun. Mae Rhwydwaith Cynllunio Gofodol mwy wedi'i sefydlu hefyd er mwyn darparu fforwm i bobl gymryd rhan yn y Cynllun ac ymgynghori arno mewn ffordd ddeallus. Caiff llawer o grwpiau â diddordeb eu cynrychioli ar y fforwm gan gynnwys awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol, academia, busnesau a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Mae'r Rhwydwaith wedi cyfarfod, ar ffurf cynadleddau, ar adegau allweddol yn y broses o baratoi'r Cynllun. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd neu gyflwyniadau - neu maent ar y gweill - gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y sector busnes, a Phartneriaethau Busnes a Gwledig y Cynulliad. Mae'r tri gweithdy a gynhaliwyd ledled Cymru yn ystod y mis diwethaf wedi rhoi cyfle i'r rheini sydd â diddordeb helpu i baratoi'r Cynllun.

Sail i'r ymchwil

11. Mae contract ymchwil wedi'i ddyfarnu fel bod tystiolaeth yn sail i'r Cynllun. Bydd yr ymchwil, a wneir gan ECOTEC Research and Consulting ar y cyd ag Adran Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol Prifysgol Caerdydd, Uned Ymchwil Economaidd Cymru, Cambridge Econometrics a WS Atkins, yn archwilio goblygiadau gofodol polisi presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn darparu data cefndirol cymdeithasol-economaidd, dadansoddiadau a mapiau, ac yn nodi'r hyn sy'n debygol o hybu newid. Er mwyn profi canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, cynhaliwyd gweithdai yn ddiweddar yng Nghaerfyrddin, Caerleon a Llandudno. Yn ystod cam terfynol y contract ymchwil, bydd amrywiaeth o opsiynau gofodol yn cael eu datblygu a bydd eu goblygiadau, o ran trafnidiaeth a defnydd tir, yn cael eu hasesu. Bydd yr adroddiad ymchwil terfynol ar gael yn ddiweddarach yn yr haf.

**Cydymffurfio, Goblygiadau Ariannol ac Effeithiau Eraill**

12. Mae Adran 40 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn cwmpasu'r gwaith o baratoi'r Cynllun, ac mae hefyd yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud unrhyw beth y cyfrifir ei fod yn hwyluso arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, neu yn gydnaws â hynny neu'n atodol i hynny, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chynllunio. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn deillio o'r gwaith o baratoi Cynllun Gofodol Cymru.

**Themâu Trawsbynciol**

13. Mae Cynllun Gofodol Cymru yn gyfle i greu persbectif gofodol ar gyfer datblygu a gweithredu polisi. Mae cysylltiad clir rhyngddo a Chynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad a

pholisïau a strategaethau eraill. Bydd hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad y Cynulliad i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a hyrwyddo cyfle cyfartal.

**Camau Gweithredu ar gyfer Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**

14. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r adroddiad. Bydd adroddiad arall yn cael ei ddarparu yn yr hydref ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei dderbyn o'r contract ymchwil.

**Enw Cyswllt**

Neil Hemington est. 3351